Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Tlodi Plant i Gymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen hon wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad – Strategaeth Tlodi Plant i Gymru. Agenda gwrth-dlodi ar gyfer gweithredu**'.

**Mehefin 2023**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y byddwch chi angen cymorth darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu chi.



Gall geiriau mewn **ysgrifen trwm glas** fod yn anodd i’w deall. Gallwch wirio beth mae’r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen31**.

Pan mae’r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru

**E-bost:**
TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cyrmru

**Ffôn**: 03000 616056

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247**.

# Cynwwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........ 2

Cyflwyniad ........ 4

Blaenoriaethau ac amcanion ........ 9

Amcan 1. Lleihau costau a chynyddu faint o arian sydd gan deuluoedd ........ 12

Amcan 2. Creu ffyrdd newydd allan o dlodi ........ 17

Amcan 3. Cefnogi lles plant a theuluoedd ........ 21

Amcan 4. Sicrhau bod pawb yn cael eu trin gydag urddas a pharch ........ 24

5. Sicrhau bod llywodraethau lleol a chenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd ........ 27

Sut y byddwn ni'n gwirio pa mor dda rydym ni'n ei wneud ........ 30


Geiriau Anodd ........ 31

# Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau taclo **tlodi**. A gwneud bywyd yn decach yng Nghymru. Fel rhan o'n gwaith ar hyn, mae'n rhaid i ni ysgrifennu strategaeth i ddelio â **thlodi plant** yng Nghymru.

**Tlodi plant** yw pan fydd plentyn yn cael ei fagu heb y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.




Mae strategaeth yn gynllun gweithredu a fydd yn ein helpu i gyflawni nod penodol.



Gall byw mewn **tlodi** effeithio ar addysg, iechyd a **lles** plentyn.

Mae **lles** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.




Fe wnaethon ni ysgrifennu ein **Strategaeth Tlodi Plant** ddiwethaf i Gymru yn 2015. Y ddogfen hon yw'r strategaeth wedi'i diweddaru.




Mae **Mesur Plant a Theuluoedd 2010** yn gyfraith ar gael gwared ar **dlodi plant** yng Nghymru. Mae'n dweud bod rhaid i ni adrodd bob tair blynedd ar sut rydym ni'n delio â **thlodi plant**.



Ers 2015, rydym ni wedi buddsoddi arian i atal nifer fawr o blant rhag byw mewn **tlodi** yng Nghymru. Ond mae **tlodi** yn dal i fod yn broblem fawr yng Nghymru.



Mae argyfwng costau byw yn golygu bod cost pethau mae pobl eu hangen, fel bwyd, nwy, trydan a phetrol yn cynyddu. Ond nid yw'r swm rydym ni'n ei ennill yn cynyddu. Felly, mae gan bobl lai o arian.




Rydym ni'n gwybod bod dros 1 o bob 4 plentyn yng Nghymru yn byw mewn **tlodi incwm cymharol**.

**Tlodi incwm cymharol** yw pan fydd gan gartrefi rywfaint o arian, ond nid yw'n ddigon i fforddio unrhyw beth heblaw eitemau sylfaenol iawn.



Yn aml yng Nghymru, mae penderfyniadau am ein harian yn cael eu gwneud gan lywodraeth y DU. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach gwneud newidiadau cyflym yng Nghymru.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)** yn ddeddf am wella **llesiant** Cymru. Rydym ni wedi defnyddio’r gyfraith hon yn ein strategaeth i helpu i daclo **tlodi** yng Nghymru.



Mae’n sicrhau bod **gwasanaethau cyhoeddus** yn meddwl am yr effaith mae eu penderfyniad yn ei gael ar bobl nawr ac yn y dyfodol.

Mae **gwasnanaethau cyhoeddus** yn sefydliadau sy’n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft, y GIG a’r gwasanaethau tân ac achub.



Mae’r ddeddf hon hefyd yn dweud y dylai **gwasanaethau cyhoeddus** gydweithio’n well i ddelio â phroblemau. Dylent hefyd weithio mwy gyda phobl a chymunedau.



Fe wnaethon ni gasglu tystiolaeth a data gan bobl sy’n byw mewn **tlodi** neu sydd wedi profi **tlodi** i helpu i ysgrifennu’r strategaeth hon.



Mae eich profiadau yn bwysig i ni. Felly, rydym ni wedi cynnal digwyddiadau siarad lle rydych chi wedi ateb ein cwestiynau.



Roedd yn bwysig iawn i ni glywed gan lawer o wahanol bobl, gan gynnwys:



- Pobl dduon, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig**

> Mae pobl o **Leiafrifoedd Ethnig** yn bobl sy'n byw mewn mannau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn hil gwahanol.



- Pobl anabl



- Pobl **niwrowahanol** – er enghraifft y rhai gydag awtisiaeth, dyslecsia ac ADHD




- A phobl **LHDTC+**.




Mae **LHDTC+** yn sefyll am **Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar** neu **Gwestiynu** ac eraill. Mae hon yn gymuned o bobl sydd â phethau yn gyffredin oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n ei garu:

– Mae **Lesbiaid** yn ferched sy'n cael eu denu at ferched eraill.



– Mae dynion **Hoyw** yn ddynion sy'n cael eu denu at ddynion eraill.

– Mae pobl **Ddeurywiol** yn bobl sy'n cael eu denu at ddynion a merched.




– Mae person **Trawsryweddol** neu drawsrywiol yn rhywun nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw maen nhw'n credu iddynt fod pan gawson nhw eu geni.

– Mae **Cwiar** wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl LHDTC+, ond mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd bositif. Er enghraifft, pan maen nhw'n teimlo nad yw geiriau fel syth, hoyw, a lesbiaidd yn eu disgrifio.



– Mae **Cwestiynu** ar gyfer pobl sy'n ceisio darganfod pwy ydyn nhw a sut maen nhw eisiau cael eu hadnabod.

# Blaenoriaethau ac amcanion



**Blaenoriaeth** yw rhywbeth mae angen ei wneud yn gyntaf, oherwydd ein bod ni'n credu mai dyma'r peth pwysicaf i ganolbwyntio arno.



**Amcanion** yw'r pethau rydym ni am eu gwneud i gyflawni ein **blaenoriaethau**.




Mae gennym ni 5 **amcan** rydyn ni'n credu bod angen i ni weithio arnynt i wneud newidiadau cadarnhaol i fywydau plant a theuluoedd sy'n byw mewn **tlodi.**

Ein 5 **amcan** yw:



1. Lleihau costau a chynyddu faint o arian sydd gan deuluoedd.



2. Creu ffyrdd clir allan o dlodi fel y gall **plant**, pobl ifanc a'u teuluoedd gyflawni'r bywydau gorau ar eu cyfer nhw eu hunain.



3. Cefnogi **lles** plant a'u teuluoedd fel eu bod nhw'n gallu mwynhau eu hawliau dynol a chyflawni mwy.



4. Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan wasanaethau.



5. Sicrhau bod llywodraethau lleol a chenedlaethol yn gweithio'n well gyda'i gilydd.



O dan bob un o'n 5 **amcan**, rydym ni hefyd wedi ysgrifennu 5 **blaenoriaeth** – y pethau rydyn ni'n meddwl sydd bwysicaf i ganolbwyntio arnyn nhw i gyflawni'r **amcan** hwnnw.

Ein 5 **blaenoriaeth** yw:



1. Rhoi arian ym mhocedi pobl – sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth mae ganddyn nhw hawl i'w chael.




2. Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gwaith sy'n talu'n deg.



3. Cefnogi ein cymunedau – sicrhau y gall pobl gael gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i fodloni eu hangenhion yn hawdd.



4. Sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau a bod pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn garedig.



5. Cefnogi llywodraethau a gwasananaethau i gydweithio.

# Amcan 1. Lleihau costau a chynyddu faint o arian sydd gan deuluoedd



**Blaenoriaeth 1 – Rhoi arian ym mhocedi pobl – gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth mae ganddyn nhw hawl i'w chael**

## Yr hyn wnaethon ni ei glywed



Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd deall y ffordd bresennol o gael cymorth gyda'u harian. Gan gynnwys gofalwyr ifanc.



Dywedodd pobl wrthym ni eu bod nhw eisiau siarad gydag ymgynghorwyr wyneb yn wyneb, nid ar-lein neu dros y ffôn.



Dywedodd teuluoedd gyda pherthnasau anabl wrthym ni eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd hawlio eu budd-daliadau anabledd a gofalwyr.



Dywedodd pobl wrthym ni eu bod nhw'n poeni am gost bwyd a'i fod yn rhy ddrud.



Dywedodd pobl wrthym ni fod yr ysgol yn rhy ddrud. Mae gwisgoedd ysgol, prydau ysgol, offer chwaraeon a thripiau ysgol yn costio llawer o arian.

## Beth rydyn ni'n ei wneud amdano




Rydym ni am sicrhau bod pobl yn gallu cael y budd-daliadau mae ganddyn nhw hawl i'w cael.

Rydym ni'n ariannu'r **Ganolfan Cyngor ar Bopeth** i ddarparu **Advice Link Cymru**. Mae hwn yn wasanaeth sy'n gallu rhoi cyngor am bethau fel budd-daliadau, cyflogaeth, tai ac addysg.



Rydym ni hefyd yn hyfforddi staff sy'n gwethio mewn gwasanaethau fel eu bod nhw'n gallu cefnogi pobl yn well i gael y cymorth ariannol mae ganddyn nhw hawl i'w gael.



Mae gennym ni "**Fudd-daliadau i Gymru**". Mae'r rhain yn daliadau sy'n gallu eu gwneud i bobl am bethau mae Llywodraeth Cymru yn eu rheoli. Er enghraifft:

- Cynllun **Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**, sy'n helpu pobl i dalu eu Treth Gyngor
- Prydau ysgol am ddim
- A'r **Gronfa Cymorth Dewisol** – sy'n helpu pobl i dalu am bethau fel oergelloedd, poptai a dodrefn ar gyfer eu cartrefi.



Byddwn yn gwneud system Budd-daliadau Cymru yn haws i bobl sydd angen cymorth.



Ers mis Gorffennaf 2022, rydym ni wedi cynnig £1600 y mis am 2 flynedd i lawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal ac nad ydynt yn cael eu cefnogi gan deulu.



Maer'r bobl ifanc hyn oedd yn gadael gofal hefyd wedi cael cyngor a chymorth ar sut i reoli eu harian.



Bydd rhieni newydd yn cael eitemau hanfodol am ddim ar gyfer babnod newydd-anedig.



Mae pobl yng Nghymru yn gallu cael presgripsiynau am ddim a pharcio am ddim mewn ysbytai.



Rydym ni'n gweithio gyda gwahanol sefydliadau i sicrhau bod pobl yn gallu cael bwyd iach, rhatach.




Rydym ni'n gweithio gyda sefydliadau i gefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau cartref, fel gwres canolog.



Mae pob plentyn sy'n mynd i ysgol gynradd awdurdod lleol yn cael brecwast am ddim yn yr ysgol. Erbyn 2024, bydd Cymru yn cynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd.



Bydd teuluoedd gydag incwm isel yn gallu cael cymorth ariannol i helpu gyda chostau ysgol cyffredinol.



Mae taliadau **Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)** wedi cynyddu i helpu myfyrwyr hŷn yn y chweched dosbarth neu'r coleg i allu fforddio pethau fel cludiant neu brydau bwyd.




Mae gennym ni eisoes gynnyrch mislif am ddim mewn ysgolion. Rydym ni'n bwriadu eu cael mewn lleoliadau eraill.



Rydym ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir.

# Amcan 2. Creu ffyrdd newydd allan o dlodi




**Blaenoriaeth 2. Sicrhau bod pawb yn gallu cael gwaith sy'n talu'n deg**



Rydym ni eisiau i bob plentyn gael y cyfle i gyflawni ei botensial llawn. Byddwn yn rhoi cymorth i bob plentyn yn eu blynyddoedd cynnar i helpu gyda hyn.



Mae cael gwared ar **dlodi plant** yn cynnwys cefnogi rhieni a gofalwyr i gael y sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer gwaith sy'n talu'n well.

## Yr hyn wnaethon ni ei glywed



Mae rhieni a gofalwyr wedi dweud wrthym ni eu bod nhw eisiau:

- Amodau gweithio gwell
- Cyflog teg
- A'r cyfle i gael eu dyrchafu.



Dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym ni eu bod nhw angen mwy o ofal plant fforddiadwy er mwyn iddyn nhw allu parhau i weithio.



Dywedodd llawer o bobl wrthymni  bod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a’r gost yn eu hatal rhag cael swyddi.



Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni eu bod nhw eisiau mwy o brofiad gwaith a chyngor am swyddi tra’n dal yn yr ysgol.



Dywedodd rhieni a gofalwyr plant gydag anghenion dysgu ychwanegol wrthym ni eu bod nhw’n ei chael hi’n anodd cael cymorth yn yr ysgol i’w plant.

# Beth rydyn ni'n ei wneud amdano



Rydym ni'n gweithio ar '**Gynllun Gweithredu Plentyndod Cynnar a Gofal**' i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael profiad dysgu da.



Rydym ni eisiau rhoi'r **Cynnig Gofal Plant** i fwy o deuluoedd. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn rhoi 30 awr o addysg a gofal plant am ddim i rieni sydd gyda phlant 3 a 4 mlwydd oed.



Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau i sicrhau nad yw **tlodi'n** effeithio ar allu plant i wneud yn dda yn yr ysgol.



Byddwn ni'n sicrhau bod addysg yn **hygyrch** i bawb, gan gynnwys y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae **hygyrch** yn golygu bod pawb yn gallu darganfod, defnyddio neu ddeall rhywbeth yn hawdd, dim ots beth yw eu hanghenion.



Byddwn ni’n cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg. Byddwn ni’n gweithio gydag ysgolion a cholegau i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu mynd i’r ysgol tra’n gofalu am eu person.



Byddwn ni’n sicrhau bod pawb rhwng 16 a 24 mlwydd oed yn gallu cael addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei alw yn ‘**Warant Pobl Ifanc**’.



Rydyn ni eisiau rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael **cymwysterau galwedigaethol** – cymhwysterau yw’r rhain sy’n rhoi’r sgiliau rydych chi eu hangen ar gyfer rhai swyddi.



Mae gennym ni **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** a fydd yn sicrhau y bydd mwy o drafnidiaeth gyhoeddus i bawb, gan gynnwys myfyrwyr.



Byddwn ni’n sicrhau bod pob gweithle’n trin eu gweithwyr yn deg ac yn ei wneud yn lle da i weithio.

# Amcan 3. Cefnogi lles plant a theuluoedd



**Blaenoriaeth 3. Cefnogi ein cymunedau – gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn hawdd i fodloni eu hanghenion**



Yng Nghymru rydym ni eisiau'r gorau i'n plant. Dim ots o ble maen nhw'n dod neu ble maen nhw'n byw.

## Yr hyn wnaethon ni ei glywed



Mae llawer o rieni a gofalwyr angen tai gwell, rhatach.



Mae'n well gan bobl gefnogaeth wyneb yn wyneb, nid dros y ffôn neu ar-lein.



Byddai'r cymorth hwn yn helpu teuluoedd i gael mynediad i chwaraeon, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau cymdeithasol am lai o arian.



Dywedodd sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd Duon, Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig** wrthym ni fod teuluoedd yn profi **gwahaniaethu** yn eu herbyn mewn gwasanaethau cymunedol.

> **Gwahaniaethu** yw trin grwpiau o bobl yn anheg oherwydd pwy ydyn nhw.




Roedd pobl ifanc **LHDTC+** yn teimlo nad oedd gwasanaethau yn deall eu hanghenion ac roedden nhw'n teimlo bod pobl yn **gwahaniaethu** yn eu herbyn.



Dywedodd pobl ifanc a rhieni a gofalwyr wrthym ni eu bod nhw angen mwy o gefnogaeth gyda'u hiechyd meddwl.

## Beth rydyn ni’n ei wneud amdano



Gan ychwanegu at y gwaith rydym ni eisoes yn ei wneud i fynd i’r afael â **thlodi plant**, byddwn yn meddwl am gymunedau wrth greu polisïau.




Byddwn ni’n sicrhau bod ein gwasanaethau yn y gymuned yn bodloni anghenion pobl. Fel iechyd meddwl, problemau ariannol, addysg a pherthnasoedd teuluol.



Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau i ddarparu mwy o gyfleoedd cymunedol. Fel chwaraeon, clybiau ieuenctid, a gweithgareddau teuluol cost isel.




O fis Medi 2023, bydd llawer o derfynau cyflymder ffyrdd yn cael eu newid o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr. Bydd hyn yn gwneud ardaloedd yn fwy diogel i bobl gymdeithadasu ynddynt.



Wrth i ni ddatblygu polisi ein cymuned, byddwn yn sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol i bawb o bob cefndir.

# Amcan 4. Sicrhau bod pawb yn cael eu trin gydag urddas a pharch



**Blaenoriaeth 4. Sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau a bod pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn garedig**



Mae rhai teuluoedd wedi wynebu **gwahaniaethu** neu wedi cael eu gwneud i deimlo'n ddrwg oherwydd eu bod nhw'n byw mewn **tlodi**.



Mae'n rhaid i wasanaethau gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd heb **wahaniaethu**. Ni ddylen nhw gael eu trin yn wahanol oherwydd nad ydynt yn ennill llawer neu oherwydd pwy ydyn nhw.

# Yr hyn wnaethon ni ei glywed



Mae llawer o bobl wedi dweud wrthym ni nad ydynt wedi cael eu trin gyda pharch gan wasanaethau cymorth.



Dywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym nad ydyn nhw bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.



Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu gadael allan yn yr ysgol oherwydd nad ydyn nhw'n gallu fforddio gwneud pethau fel tripiau ysgol, neu ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwisg ysgol neu ddisgos ysgol.



Dywedwyd wrthym nad yw ysgolion bob amser yn deall sefyllfa teuluoedd. Nid yw rhieni a gofalwyr pobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.

# Beth rydyn ni'n ei wneud amdano



Rydym eisoes wedi bwriadu rhoi hyfforddiant i staff i fod yn fwy caredig a mwy o ddealltwriaeth o bobl.



Rydyn ni'n mynd i wneud mwy o waith ar y '**Fframwaith Cymru sy'n Wybodus am Drawma**'. Mae hyn yn helpu pobl i fod yn fwy hyddysg am y materion sy'n effeithio ar bobl.



Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau i greu system addysg sy'n cynnwys pawb, fel nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael allan.



Wrth i'r cwricwlwm ysgol newydd gael ei addysgu, bydd ysgolion ledled Cymru yn canolbwyntio mwy ar hawliau plant.



Byddwn yn sicrhau nad yw **gwahaniaethu** yn gwneud bywydau plant, pobl ifanc na theuluoedd yn fwy anodd.

# 5. Sicrhau bod llywodraethau lleol a chenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd



**Blaenoriaeth 5. Cefnogi llywodraethau a gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd**



Mae angen i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â **thlodi plant**.



Mae'n rhaid i ni weithio gyda'r **trydydd sector** a'r **sector preifat**.



Mae'r **trydydd sector** yn rhoi cymorth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru. Mae ganddynt rôl bwysig wrth ddelio gyda **thlodi plant**. Mae'r trydydd sector yn golygu sefydliadau gwirfoddol ac elusennau.



Mae’r **sector preifat** hefyd yn bwysig. Mae’r sector preifat yn fusnesau. Maen nhw’n gallu cefnogi gwaith elusennau bach lleol. Ac hefyd yn darparu swyddi i gymunedau.



Rydym ni wedi sefydlu grŵp cynghori i’n helpu i gynllunio sut i ddefnyddio ein harian yn y ffordd orau.



Dydyn ni ddim am i gynghorau lleol gael eu llethu gan lawer o waith papur. Rydyn ni eisiau iddyn nhw ganolbwyntio ar helpu cymunedau. Felly, rydym niw wedi lleihau faint sydd angen iddyn nhw ei wneud.



Rydym ni wedi creu cyllid tymor hirach ar gyfer prosiectau pwysig a fydd o fudd i blant, gofalwyr ifanc a theuluoedd.

## Byddwn ni:




Yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i daclo **tlodi**.




Gweithio gyda sefydliadau i rannu'r ffyrdd gorau o weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb yn gwneud eu gorau i fynd i daclo **tlodi plan**t.

# Sut y byddwn ni'n gwirio pa mor dda rydym ni'n ei wneud



Mae nodau cenedlaethol yn y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfydol** y byddwn ni'n adrodd arnyn nhw.




Byddwn yn adrodd bob tair blynedd pa mor agos ydyn ni at gyflawni ein nodau.



Bydd mwy o ymchwil yn cael ei wneud i ddweud wrthym ni sut rydym wedi gwneud.

# Geiriau Anodd

### Amcanion

Amcanion yw'r pethau rydym ni am eu gwneud i gyflawni ein blaenoriaethau.

### Blaenoriaeth

Blaenoriaeth yw rhywbeth mae angen ei wneud yn gyntaf, oherwydd ein bod ni'n credu mai dyma'r peth pwysicaf i ganolbwyntio arno.

### Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw trin grwpiau o bobl yn anheg oherwydd pwy ydyn nhw.

### Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynnig gan y llywodraeth ac sydd yno i helpu pob aelod o gymuned.

### LHDTC+

Mae LHDTC+ yn golygu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar neu Gwestiynu ac eraill. Mae hon yn gymuned o bobl sydd â phethau yn gyffredin oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru:

- Mae lesbiaid yn ferched sy'n cael eu denu at ferched eraill.
- Mae dynion hoyw yn cael eu denu at ddynion eraill.
- Mae pobl ddeurywiol yn cael eu denu at ddynion a merched.
- Person trawsryweddol neu drawsrywiol yw rhywun nad yw eu rhywedd

yr un fath â'r rhyw maen nhw'n credu iddynt fod pan gawson nhw eu geni.

- Mae Cwiar wedi cael ei ddefnyddio fel gair drwg yn erbyn pobl LHDTC+, ond mae rhai pobl wedi dechrau ei ddefnyddio mewn ffordd bositif. Er enghraifft, pan maen nhw'n teimlo nad yw geiriau fel syth, hoyw, a lesbiaidd yn eu disgrifio.

- Mae Cwestiynu ar gyfer pobl sy'n ceisio darganfod pwy ydyn nhw a sut maen nhw eisiau cael eu hadnabod.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn golygu bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth, ei ddefnyddio neu ei ddeall yn hawdd, dim ots beth yw eu hanghenion.

## Lles

Lles yw'r ffordd rydym ni'n ymdopi fel unigolion. Mae'n ystyried pethau sy'n digwydd o'n cwmpas ac yn effeithio arnom.

## Leiafrifoedd Ethnig

Mae pobl o Leiafrifoedd Ethnig yn bobl sy'n byw mewn mannau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn hil gwahanol.

## Tlodi plant

Tlodi plant yw pan fydd plentyn yn cael ei fagu heb y pethau pwysig maen nhw eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.

## Tlodi incwm cymharol

Tlodi incwm cymharol yw pan fydd gan gartrefi rywfaint o arian, ond nid yw'n ddigon i fforddio unrhyw beth heblaw eitemau sylfaenol iawn.